

GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG

(Dryden Road, Penarth)

(Traffig Unffordd) 2022

1. Ar 7 Chwefror 2023, gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1, 2 a 53 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), Adran 63 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn a fydd yn gorfodi'r hyn a ddisgrifir yn yr Atodlenni isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 13 Chwefror 2023 neu ar y dyddiadau mae'r Arwyddion Traffig a'r Marciau Ffordd yn eu lle, pa un bynnag fydd yr hwyraf ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Dryden Road Penarth) (Traffig Un Ffordd) 2022".
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os hoffech gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu'r darpariaethau ynddo ar y sail nad ydynt yn unol â'r bwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail nas cydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos o 13 Chwefror 2023, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

ATODLEN 1

Ni fydd unrhyw berson yn gyrru neu'n gadael i gerbyd deithio ar hyd y darn o ffordd a ddisgrifir isod, heblaw am tua'r dwyrain yna tua'r de'n gyffredinol, ac fel y nodir yn yr eithriadau yn Atodlen 2.

Dryden Road (Rhan), Penarth

O bwynt tua 15.5 metr o'r gyffordd â Tennyson Road, tua'r dwyrain a'r de yn gyffredinol, i'r gyffordd â Wordsworth Avenue, am tua 235 metr.

ATODLEN 2

Eithriadau i'r Gorchymyn Unffordd:

Symud unrhyw rwystrau i draffig.

Cerbydau sy'n cael eu gweithredu gan yr Heddlu, neu'r gwasanaethau Tân neu Ambiwlans.

Cerbydau sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithrediadau ysgubo ffyrdd, neu lanhau gyliau.

Dyddiedig 9 Chwefror 2023
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô. CF5 6AA